| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Cabinet** |
| **DYDDIAD** | **13 Medi 2016** |
| **TEITL** | **Adroddiad Perfformiad Gwynedd 2015/16** |
| **PWRPAS** | **Cymeradwyo'r adroddiad i'w gyflwyno i'r Cyngor llawn** |
| **AWDUR** | **Y Cynghorydd Dyfed Edwards** |
| **SWYDDOG CYSWLLT** | **Hawis Jones, Rheolwr Cynllunio Strategol a Pherfformiad** |

## 1.0 Cyflwyniad

1.1 Yn unol â chyfundrefn rheoli perfformiad y Cyngor, cyflwynir Adroddiad Perfformiad Gwynedd 2015/16 (Atodiad 1) i'r Cabinet am gymeradwyaeth.

1.2 Mae angen i'r Cabinet gymeradwyo'r adroddiad cyn iddo gael ei gyflwyno i'w fabwysiadu gan y Cyngor llawn yn ei gyfarfod ar 6 Hydref 2016.

1.3 Cyflwynwyd yr adroddiad hefyd i sylw'r Fforwm Craffu ar 28 Gorffennaf 2016 er mwyn craffu cydbwysedd yr adroddiad.

## 3.0 Ystyriaethau perthnasol

3.1 Mae'r adroddiad sydd wedi ei baratoi yn seiliedig ar yr adroddiadau trosolwg o berfformiad a gymeradwywyd gan y Cabinet yn ystod y flwyddyn.

3.2 Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn ystyried yr adroddiad hwn wrth baratoi ei asesiad ar berfformiad y Cyngor. Yn ôl yr arfer, byddant yn chwilio am adroddiad cytbwys, sydd yn rhoi sylw i'r agweddau na lwyddwyd i'w cyflawni, yn ogystal ag i'r agweddau llwyddiant.

3.3 Mae'r adroddiad wedi ei lunio yn gryno ac yn rhoi sylw i'r prif faterion yn weledol er mwyn i drigolion Gwynedd allu ei ddarllen yn rhwydd.

3.4 Trefnir hysbysu'r cyhoedd o'r adroddiad drwy gyfathrebu'r adroddiad a'r prif lwyddiannau yn weledol ar gyfryngau cymdeithasol, yn ogystal â thrwy argraffu a rhannu copïau drwy gyfryngau a lleoliadau arferol y Cyngor e.e. llyfrgelloedd.

3.5 Cyflwynir perfformiad holl fesurau allweddol y Cyngor mewn atodiad data ar wahân (Atodiad 2). Mae'r atodiad yn cynnwys perfformiad cymharol cenedlaethol a chymhariaeth gyda'r 'teulu' o gynghorau gwledig, ble mae hynny'n berthnasol. Cyhoeddir yr atodiad ar 7 Medi 2016 yn unol â threfniadau rhannu data perfformiad Cymru gyfan. Yn unol â chais y

Fforwm Craffu, cyflwynir sylwadau ar y mesurau sy'n gwaethygu ynddo hefyd.

## 4.0 Argymhelliad

Gofynnir i'r Cabinet gymeradwyo Adroddiad Perfformiad Gwynedd 2015/16 ac argymell i'r Cyngor Llawn ei fod yn ei fabwysiadu.

---

## Barn y swyddogion statudol

**Y Prif Weithredwr:**
Mae'r adroddiad sydd gerbron yn fy marn innau yn hawdd i'w ddarllen a'i ddeall ac yn un teg a chytbwys sydd yn tynnu sylw at lwyddiannau'r Cyngor ond hefyd yn ddigon rhesymol at feysydd lle na lwyddwyd i gyflawni fel y pwyntiau y tynnir sylw atynt yn benodol, yn Atodiad 2. Mae yn parhau yn destun cryn falchder i ni fel Cyngor ein bod yn llwyddo i gyflawni gymaint ar adeg lle mae ein hadnoddau ar gyfer cyflawni wedi lleihau gymaint.

**Y Swyddog Monitro:**
Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb.

**Y Pennaeth Cyllid:**
Nodir ar dudalen 21 o'r adroddiad bod y Cyngor wedi cadw effaith yr arbedion ar bobl Gwynedd i'r lleiafswm posib, drwy wireddu arbedion effeithlonrwydd gwerth £6.575miliwn yn ystod 2015/16 o newid dull darparu'r gwasanaethau, a nodir hefyd (tud. 6 a tud. 20) y camau a gymerwyd yn ystod 2015/16 i flaenoriaethu adnoddau yn gynhwysol.
Ar tud. 21, mae'r adroddiad yn egluro bod y Cyngor wedi llwyddo i gadw o fewn y gyllideb yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ac fel dywedai Rhagair Arweinydd y Cyngor (tud. 3), mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi rhoi neges gadarnhaol fod gan y Cyngor drefniadau rheoli ariannol cadarn.

---

## Atodiadau

**Atodiad 1 –** Adroddiad Perfformiad Gwynedd 2015/16
**Atodiad 2 –** Atodiad Data 2015/16 (i'w gyhoeddi ar 7 Medi 2016).

**Cyswllt**:
01286 679868
01286 679490
cabinet@gwynedd.gov.uk